OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 939 (Cy. 203)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Medi 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Medi 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Medi 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(e) ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**2**), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a rhychwant

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Medi 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

(**1**) 1990 p. 16. Mae swyddogaethau'r "Secretary of State" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. *Gweler* diwygiadau i adrannau 16 ac 48 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan adran 40 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Mae'r pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990, o'u darllen ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), yn caniatáu gwneud addasiadau i fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fel y diffinnir "retained direct minor EU legislation" yn adran 7(6) o'r Ddeddf. Diffinnir "modify" yn adran 20(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac mae'n cynnwys "amend, repeal or revoke".

(**2**) Mewnosodwyd is-adran (4A) gan baragraffau 7 ac 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(**3**) EUR 2002/178.

**Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 17 (tramgwyddau a chosbau) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**4**), ym mharagraff (9)(b)(ii), yn lle "diwedd 30 Medi 2022" rhodder "1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007**

**3.** Yn rheoliad 12 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007(**5**), ym mharagraff (a) yn lle "chyn diwedd 30 Medi 2022" rhodder "chyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 23 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn digwydd" rhodder "1 Ionawr 2024"; a

(b) ym mharagraff (2)(a), yn lle "diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn digwydd" rhodder "1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(**7**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir), yn lle paragraff 4 rhodder—

"(4) Nid yw paragraffau (1)(a)(vi) nac (1)(b)(ii) yn gymwys—

(a) os yw'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad cyn 1 Ionawr 2024; a

(b) pe na bai'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig wedi ffurfio toriad—

(i) yn achos paragraff (1)(a)(vi), o Erthygl 15 o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu; neu

(ii) yn achos paragraff (1)(b)(ii), o Erthygl 2(2)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1825/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.".

(**4**) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(**5**) O.S. 2007/389 (Cy. 40), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(**6**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1376 (Cy. 242). Daeth O.S. 2019/1376 (Cy. 242) i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1308 (Cy. 289).
(**7**) O.S. 2011/991 (Cy. 145); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/3270 (Cy. 320), O.S. 2018/1188 (Cy. 242) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137). Daeth O.S. 2019/732 (Cy. 137) i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

**Diwygio Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

**6.** Yn rheoliad 22 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(**8**), ym mharagraff (1)(a) yn lle "ar neu cyn 30 Medi 2022" rhodder "cyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014**

**7.** Yn rheoliad 15 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**9**), ym mharagraff (1)(a), yn lle "ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny" rhodder "cyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

**8.** Yn rheoliad 23 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Mêl (Cymru) 2015(**10**), ym mharagraff (2)(a) yn lle "ar neu cyn 30 Medi 2022" rhodder "cyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015**

**9.** Yn rheoliad 7 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015(**11**), ym mharagraff (2)(a) yn lle "ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny" rhodder "cyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016**

**10.** Yn rheoliad 10 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016(**12**), ym mharagraff (1)(a), yn lle "ar neu cyn 30 Medi 2022" rhodder "cyn 1 Ionawr 2024".

**Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000**

**11.** Yn Erthygl 2 (labelu pan na fo gwybodaeth ar gael) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion(**13**), ym mharagraffau 3 a 4, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

**Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008**

**12.** Yn Erthygl 30 (wyau a fewnforir) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau(**14**), ym mharagraff 3, yn lle'r geiriau o "for a period" hyd at "falls" rhodder "for the period beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

(**8**) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(**9**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/911 (Cy. 207).
(**10**) O.S. 2015/1507 (Cy. 174), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(**11**) O.S. 2015/1519 (Cy. 177), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/911 (Cy. 207).
(**12**) O.S. 2016/1130 (Cy. 270), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(**13**) EUR 2000/1825, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/822. Daeth O.S. 2019/822 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1453 ac O.S. 2020/1481.
(**14**) EUR 2008/589, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/1402 ac O.S. 2019/1422. Daeth O.S. 2019/1402 ac O.S. 2019/1422 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Diwygiwyd O.S. 2019/1402 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1445 ac O.S. 2020/1452. Diwygiwyd O.S. 2019/1422 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1445 ac O.S. 2020/1453.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011**

**13.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn cysylltiad â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu(**15**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 7 (cymysgeddau), ym mharagraff 4(b), yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

(3) Yn Atodiad 1 (marchnata)—

(a) yn Rhan A (safon marchnata cyffredinol), ym mhwynt 4(A) (adnabod), yn yr ail fewnoliad yn yr ail baragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023"; a

(b) yn Rhan B (safonau marchnata penodol), ym mhob un o Rannau 1 i 10, ym mhwynt 6(A) (adnabod), yn yr ail fewnoliad yn yr ail baragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 29/2012**

**14.** Yn Erthygl 2 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 29/2012 ar safonau marchnata ar gyfer olew olewydd (codeiddio)(**16**), ym mhwynt (b) o'r trydydd paragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

**Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33**

**15.** Yn Erthygl 46 (dynodiad y potelwr, y cynhyrchydd, y mewnforiwr a'r gwerthwr) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ceisiadau am warchod dynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn ar gyfer gwrthwynebu, cyfyngiadau ar ddefnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo gwarchodaeth, a labelu a chyflwyniad(**17**), ym mharagraff 1, ym mhwyntiau (a) a (d), yn lle "30 September 2022" rhodder "31 December 2023".

*Lynne Neagle*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant,
un o Weinidogion Cymru

5 Medi 2022

(**15**) EUR 2011/543, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/822, O.S. 2019/828, O.S. 2021/756, O.S. 2021/1396 ac O.S. 2022/608. Daeth O.S. 2019/822 ac O.S. 2019/828 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Diwygiwyd O.S. 2019/822 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2019/1405 ac O.S. 2020/1453, a gwnaeth yr olaf o'r rhain hefyd ddiwygio O.S. 2019/1405 cyn iddo ddod i rym. Diwygiwyd O.S. 2020/828 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1452.

(**16**) EUR 2012/29, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/1422. Daeth O.S. 2019/1422 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1453.

(**17**) EUR 2019/33, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1637, O.S. 2020/1661 ac O.S. 2021/632.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio offerynnau statudol a chyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â labelu bwyd yng Nghymru. Mae'r diwygiadau yn estyn trefniadau trosiannol blaenorol, a oedd i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Medi 2022, fel eu bod yn parhau i fod yn gymwys hyd at ddiwedd 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.